

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 7 Tachwedd 2016 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc**

### **Presennol:**

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)  
Cyng. Dilwyn Jenkins  
Cyng. Lyn Jones  
Cyng. Haydn Lewis (*Aelod Lleol y Cyngor Sir*) (*cyrraedd 7.50yh*)

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*) (*gadael 9.05yh*)  
Cyng. Huw Jones  
Cyng. Auriol Williams  
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i gyfarfod mis Tachwedd. Llongyfarchodd Miss Nerys Jones, Tygwyn, ar ei llwyddiant unwaith eto ym myd y Marathon, y tro hwn ym Marathon Eryri, pan orffennodd y ras yn bedwerydd yn adran y merched gydag amser anhygoel o 3 awr 15 munud.
2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngorwyr Islwyn Iago, Eurig Lloyd a Des Davies
3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Tud. 838, eitem 5(a): Cytunodd "Y Cyng. Dilwyn Jenkins", nid "y Cyng. Morris Davies" gyfarfod â Mrs Llio Phillips.  
Gyda'r cywriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Hydref yn gywir.
4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim
5. **Materion yn codi:**
  - (a) **Cwynion honedig am yfed alcohol yng Ngolygfan Gwbart:** Ymateb y Cyng. Haydn Lewis at Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir. Yn dilyn trafodeth ynglŷn â'r mater hwn, penderfynwyd cadw cofnod o helyntion a digwyddiadau a all ddigwydd yno.
  - (b) **Gweithredoedd ac Ymddiriedolwyr Ystafell Berkley:** Adroddiad y Cyngorwyr Huw Jones a Dilwyn Jenkins ynglŷn â chyfarfod gyda Mrs Llio Phillips o gwmni cyfreithwyr George, Davies & Evans. Cytunwyd trefnu cyfarfod ar wahân er mwyn trafod nifer o bwyntiau.
  - (c) **Cyfarfod Cyngor Tref Aberteifi gyda Chomisiynydd Trosedd a Heddlu Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn:** Adroddiad y Cyng. Lyn Jones.  
Pwysleisiodd y Comisiynydd ei fod yn barod i deithio i gwrdd â chymunedau o fewn ei awdurdod, sef ardal eang Dyfed-Powys. Mae ganddo weledigaeth dros y pedair blynedd nesaf sydd yn cynnwys ailfuddsoddi mewn camerâu Teledu Cylch Cyfyng (TCC) gan gyflwyno system wedi ei moderneiddio. Gwyntyllwyd yr ymosodiad difrifol ar fachgen ifanc o ardal y Ferwig; pe bai camerâu TCC ar gyfil y safle byddai erlyn y troseddwr dipyn yn haws. Mae defnyddio tystiolaeth o du'r camerâu hefyd yn arbed costau ac amser yr heddlu yn gyffredinol ac yn arbed gwaith papur diangen er mwyn cyflwyno tystiolaeth effeithiol i'r llys. Ynglŷn â'r ardaloedd lle mae gyrwyr yn goryrru mewn ardaloedd lle mae cyflymdra'r ffordd yn 30 neu 40mya, cyn gosod camerâu, byddai angen gwneud arolygiad o'r safle. Dywedodd Mr Llywelyn bod gosod colofnau yn dangos cyflymdra cerbydau ar y pryd yn eithaf effeithiol. Mater a gaiff ei godi tro ar ôl tro yng nghyfarfodydd PACT yw gyrwyr yn teithio yn y tywyllwch ag un golau'n unig – problem i'r heddlu lleol i'w ddatrys ydyw. Atebodd y Comisiynydd bod galwadau 101 ar gyfartaledd yn cael eu hateb o fewn 70-90 eiliad gyda'r Gymraeg, oherwydd prinder gweithwyr sydd yn rhugl yn yr iaith, ychydig yn hwy. Ychwanegodd mai costau cynnal heddlu Dyfed-Powys ar raddfa Band D treth y Cyngor yw'r rhataf yn y wlad. Awgrymwyd i'r Comisiynydd y dylid cyflwyno cardiau adnabod i bobl ifanc gan gydweithio gydag athrawon ysgolion uwchradd yn ogystal â swyddog cyswllt ysgolion; byddai hyn o fantais i reoli gor-yfed ac yfed tan oedran. Eglurodd hefyd bod camerâu sydd ynghlwm ar lifrau'r heddlu yn gam cadarnhaol ymlaen i warchod yr heddlu a rheoli ymddygiad y troseddwr honedig. Diolchwyd i'r Cyng. Jones am ei adroddiad cynhwysfawr.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (d) **Prisiau am dorri'r coed yng nghae chwarae Cae Gwyrdd, Penyparc:** Derbyniwyd dau bris trwy law Mr John Morris. Trafodwyd amcangyfrifon cwmnïau Mr Mark Toft a Mr Bobby Simmons. Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price fod y gwaith yn cael ei gynnis i Mr Toft. Mae'r Cyng. Price wedi cynnig cyfarfod â Mr Toft ar y safle er mwyn trafod anghenion y gwaith.

## 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Rhagfyr 2016
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£100
Papur Bro "Y Gambo"	£75
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	Dim
Elusen Amaethyddol, "Royal Agricultural Benevolent Institution"	£100
Age Cymru Ceredigion	£50
Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	£50

*(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)*

## 7. Cynllunio

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160867	Pwll y Bwmpwr Penyparc. "Demolition of existing dwelling and erection of 2 dwellings"	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad
A161011	Penparc Reservoir, Penyparc "Removal of the existing 10m mock telegraph pole mast and replacement with 12.5mm mini macro monopole mast, replacement equipment cabinets and ancillary developments thereto".	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad
A160909	Ffynon Grog, Mwnt "Conversion of existing barn to 3 holiday units and associated works".	Mae'r alodau yn pryderu am gulni'r ffordd a phrinder manau pasio i gerbydau.

## 8. Materion ariannol:

### Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Hydref 2016)	101564	£302.72
Costau'r Clerc (Hydref 2016)	101565	£51.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Hydref 2016)	101566	£75.60
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (offer a nwyddau glanhau)	101567	£30.00
Dŵr Cymru (Ystafell Berkley)	101568	£62.86
D. W. Owen a'i Fab (Torri porfa'r cae pêl-droed)	101569	£1,656.00
Mr John Morris (Torri porfa a strimio Caegwyrdd)	101570	£624.00
Mr John Morris (Llanw'r ceubyllau yng Ngolygfan Gwbert)	101571	£85.44
Mr John Morris (Torri'r borfa gyffredinol am chwe mis)	101572	£460.80
Mr Ken Griffiths (Archwiliad mewnol y cyfrifon am 2015-16)	101573	£150.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill:

**Adolygiad cyflog y Clerc am y flwyddyn 2016-17:** Gadawodd y Clerc yr ystafell er mwyn i'r Cynghorwyr drafod ei hadolygiad. Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Jones bod y Clerc yn derbyn cynnydd o 2% yn ei thâl o fis Ebrill 2017.

**Adolygiad cyflog glanhawyr yr ystafelloedd newid yn Ystafell Berkley.** Penderfynwyd cadw'r tâl yn £230 y chwarter.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 9. Gohebiaeth

157	Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	Derbynneb a llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor	Nodwyd
158	Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc	Derbynneb a llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor	Nodwyd
159	Age Cymru Ceredigion	Derbynneb a llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor	Nodwyd
160	Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion	Derbynneb a nodyn o ddiolch am rodd y Cyngor	Nodwyd
161	Clarke Telecom Limited	Gosod polyn telecyfathrebu newydd ger cronfa ddŵr Penyparc.	Wedi trafod gyda'r Cadeirydd, anfonwyd ymateb nad oes gwrthwynebiad gan y cyngor o'r newidiadau i foderneiddio'r gwasanaeth.
162	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Technegol)	Cadarnhad o dderbyn llythyr y Cyngor ynglŷn â'r llwybr o Gaemorgan i Benyparc.	Mae'r ohebiaeth wedi ei anfon at Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
163	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Technegol)	Cyfres o daflenni yn ymwneud â "Cymhennu Ceredigion"	Dosberthir yng nghyfarfod y Cyngor.  Mae nifer ar gael yng nghanolfannau'r gymuned.
164	Un Llais Cymru	Agenda'r cyfarfod i'w gynnal 19 Hydref yn Siambr y Cyngor, Aberaeron, a chofnodion cyfarfod 22 Mehefin 2016.	Nodwyd
165	Age Cymru Ceredigion	Gwybodaeth am Gyfarfod Cyffredinol yn Ystafell y Llywydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 17 Tachwedd 2.00yp. Y siaradwr gwadd – Garry Owen, Cyflwynydd "Taro'r Post", BBC Radio Cymru	Nodwyd
166	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gyfreithiol)	Ymateb oddi wrth adran gyfreithiol y Cyngor Sir ynglŷn â chwynion honedig am yfed alcohol yng Ngolygfan Gwbert. Cyngorwyd y Cyngor i drafod y mater o ddifri ac i gadw cofnod o helyntion a digwyddiadau yno.	Anfonwyd copi ymlaen at yr holl gynghorwyr ar 25/10/16. Cytunwyd peidio symud ymlaen i wneud cais am orchymyn gwrthod yfed alcohol ar y safle ar hyn o bryd.
167	Llywodraeth Cymru	Ymateb ynglŷn â'r llwybr o Gaemorgan i Benyparc.	Mae'r llywodraeth yn gobeitho y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
168	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Cais am ganiatâd i leoli cist wrth ymyl Ystafell Berkley er mwyn storio cadeiriau ayyb.	Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r Pwyllgor Lles mai Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc sydd yn gyfrifol am y tir o amgylch y Neuadd; awgrymwyd iddynt leoli'r cist y tu ôl i'r post gôl pêl-droed ger ffordd Felinwynt.
169	Mark Williams AS	Posteri dyddiadau cymorthfeydd misoedd Tachwedd a Rhagfyr.	Mae'r Clerc wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrdau.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

170	Y Cyng. Haydn Lewis	Copi o lythyr y Cyng. Lewis at y Cyngor Sir ynglŷn â honiadau'r Cyngor bod problem yfed alcohol yn datblygu yng Ngolygfan Gwbert.	Gweler eitem 5(a)
-----	---------------------	---	-------------------

## 10. Materion Eraill:

- (a) **Gordyfiant ar goeden yn Patch:** Gan fod y gwaith o dorri'r goeden yn dal heb ei gyflawni, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Iestyn Evans (Cyfoeth Naturiol Cymru) unwaith eto.
- (b) **Panteg, Heol Tywod, Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc anfon gwybodaeth i swyddog gorfodaeth y Cyngor Sir am ddatblygiad o fewn ffiniau Panteg.
- (c) **Dail ar ffyrdd y gymuned:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â gwaredu'r dail.
- (d) **Cysgodfeydd Bysiau:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru am gyflwr truenus dau gysgodfan bysiau sydd ar ffordd TA487.
- (e) **Cyfyngu Cyflymdra ger Ysgol Gynradd Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc am ddiweddariad ynglŷn â gostwng cyflymdra cerbydau ger yr ysgol.

## 11. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 5 Rhagfyr (F)

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2017:

9 Ionawr (YB) 6 Chwefror (F) 6 Mawrth (YB) 3 Ebrill (F) 8 Mai (YB) 5 Mehefin (F) 3 Gorffennaf (YB)  
4 Medi (F) 2 Hydref (YB) 6 Tachwedd (F) 4 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 7 November 2016 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

### Present

Cllr Ann Stokoe (*Chair*)

Cllr Dilwyn Jenkins

Cllr Lyn Jones

Cllr Haydn Lewis (*Local member of the County Council*) (*arrived at 7.50pm*)

Cllr Llinos Price (*Vice-Chair*) (*left at 9.05pm*)

Cllr Huw Jones

Cllr Auriol Williams

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

### 1. Chairperson's welcome.

The Chairperson, Cllr Ann Stokoe, welcomed everyone to the November meeting. She congratulated Miss Nerys Jones, Tygwyn, on her excellent achievement at the Snowdon Marathon returning in fourth position in the ladies section with a time of 3 hours 15 minutes. Council then proceeded to discuss items on the agenda.

### 2. Apologies for absence: Councillors Eurig Lloyd, Islwyn Iago, Des Davies.

### 3. Minutes of the previous meeting.

Page 838, item 5(a): "Cllr Dilwyn Jenkins" not "Cllr Morris Davies" agreed to meet Mrs Phillips. With the above correction it was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the October minutes were correct.

### 4. Declaration of personal interests: None.

### 5. Matters arising:

(a) **Alleged complaints of alcohol consumption at the Gwbert viewpoint:** Cllr Haydn Lewis' response to the legal department of the county council was discussed. It was agreed not to pursue a non-alcohol zone order for the time being, and to keep a record of reported incidents.

(b) **Trustees and Deeds of Ystafell Berkley:** The report of a meeting between Cllrs Huw Jones and Dilwyn Jenkins with Mrs Llio Phillips of George, Davies & Evans was received. A further meeting was agreed to discuss various outstanding issues.

(c) **A meeting at Cardigan Town Council with the Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner Dafydd Llywelyn was attended by Cllr Lyn Jones who proceeded to give his report.**

The Commissioner highlighted his first four months in office and he stressed that he was prepared to meet the community as often as possible, although the extent of his authority within the vast Dyfed-Powys area was rather daunting. He has a long-term vision of reintroducing streamlined Close Circuit Television (CCTV) cameras and also a plan to recruit more community officers. The serious attack on a local youth from the Ferwig area was discussed; if a CCTV camera was enabled on site, prosecuting the suspect would have been so much easier. The use of footage from cameras assists greatly with policing procedures and is quite economical and conserves much time-consuming administrative tasks producing prosecuting evidence for court cases. The Commissioner stated that site surveys need to be undertaken before speed cameras can be placed to limit the speed of vehicles travelling within the 30 and 40mph districts. It was agreed that on-sitespeed indicator signs within these areas are efficient and drivers, accordingly, are more prone to drive within the limit. Another problem regularly discussed is vehicles with malfunctioning lights for night driving – this is a problem that local officers can deal with and discussed at PACT meetings. Mr Llywelyn stated that on average 101 calls are answered within 70-90 seconds with Welsh language calls taking longer due to the shortage of Welsh speaking personnel on duty. Under the council tax Band D structure, the running costs of Dyfed-Powys Police is the most inexpensive in the country. It was suggested to the Commissioner that ID cards could be introduced to assist with under-age drinking by collaborating with head teachers and school liaison officers. Mr Llywelyn stated that body cameras worn by officers greatly assist in controlling disturbances and social skirmishes, and protects officers and also the alleged offenders in some cases. Cllr Jones was thanked for giving a comprehensive report of the meeting.

(d) **Quotations for the cutting of trees at Cae Gwyrdd, Penyparc:** Two quotations were received via Mr John Morris. Those received from Mr Mark Toft and Mr Bobby Simmons were discussed. It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Llinos Price that the work be offered to Mr Toft. Cllr Price agreed to discuss the required work with the contractor.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in December 2016
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£100
Papur Bro "Y Gambo" (local Welsh newspaper)	£75
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	Nil
Royal Agricultural Benevolent Institution	£100
Age Cymru Ceredigion	£50
Friends of Ceredigion Museum	£50

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

## 7. Planning:

Application No.	Address and Purpose	Council's Observations
A160867	Pwll y Bwmpwr Penyparc. "Demolition of existing dwelling and erection of 2 dwellings"	Council has no objection.
A161011	Penparc Reservoir, Penyparc "Removal of the existing 10m mock telegraph pole mast and replacement with 12.5mm mini macro monopole mast, replacement equipment cabinets and ancillary developments thereto".	Council has no objection.
A160909	Ffynon Grog, Mwnt "Conversion of existing barn to 3 holiday units and associated works".	Members are concerned regarding the narrowing of the road with insufficient passing places.

## 8. Financial Matters.

### Bills paid:

Clerk's salary (October 2016)	101564	£302.72
Clerk's expenses (October 2016)	101565	£51.00
HMRC: PAYE (October 2016)	101566	£75.60
Penyparc Young Farmers' Club (cleaning goods)	101567	£30.00
Welsh Water (Ystafell Berkley)	101568	£62.86
D. W. Owen & Son (Grass-cutting: football field)	101569	£1,656.00
Mr John Morris (Cutting the grass and strimming, Caegwyrdd)	101570	£624.00
Mr John Morris (Repairing potholes at the Gwbert Viewpoint)	101571	£85.44
Mr John Morris (General grass-cutting, 6 months)	101572	£460.80
Mr Ken Griffiths (Internal Auditor, 2015-16 accounts)	101573	£150.00

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

### Other financial matters:

**Clerk's salary review for the 2016-17 financial year:** The Clerk vacated the room during discussion.

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Huw Jones that the Clerk receives a 2% increase in her salary from April 2017.

**Review of the Ystafell Berkley cleaners' salary:** It was agreed to maintain the payment at £230 per quarter.

## 9. Correspondence:

157	Friends of Ceredigion Museum	Receipt and letter of acknowledgment for Council grant.	Noted.
158	Penyparc School PTA	Receipt and letter of acknowledgment for Council grant.	Noted.
159	Age Cymru Ceredigion	Receipt and letter of acknowledgment for Council grant.	Noted.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

160	R.A.B.I. Ceredigion	Receipt and letter of acknowledgment for Council grant.	Noted.
161	Clarke Telecom Limited	Proposed Installation of Replacement Telecommunications Mast at Penparc Reservoir.	After discussion with the Chair, it was agreed to respond with no objection.
162	Ceredigion County Council (Head of Technical Services)	Confirmation of receipt of Council's letter regarding the Footpath from Caemorgan to Penyparc.	Correspondence has been forward to Mid & West Wales Trunk Road Agent.
163	Ceredigion County Council (Head of Technical Services)	Leaflets regarding "Clutter Free Ceredigion"	Leaflets to be found at various local outlets
164	One Voice Wales	Agenda of meeting to be held on 19 October at the Council Chamber, Aberaeron, and the minutes of the meeting held on 22 June 2016.	Noted
165	Age Cymru Ceredigion	Information regarding the AGM 2016 at the National Library of Wales on 12 November at 2pm. with guest speaker Garry Owen, Presenter of "Taro'r Post", BBC Radio Cymru	Noted
166	Ceredigion County Council (Legal Department)	Response from the Legal Department, of the County Council regarding an alleged complaint of alcohol consumption at the Gwbert Viewpoint. It was suggested that the Council discuss this matter and to keep a record of any incident.	A copy of this letter was forwarded to each member on 25/10/16. It was agreed not to pursue the request regarding an alcohol free zone.
167	Welsh Government	Response regarding the footpath from Caemorgan to Penyparc.	The Government hopes that this work will be carried out during the next financial year.
168	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Request to place a container on the land adjacent to Neuadd Berkley, Penyparc in order to store carnival items such as chairs, bins, etc.	The Clerk was requested to advise the committee of Pwyllgor Lles that Penyparc Young Farmers Club are responsible for the land surrounding the hall; it was suggested that the container be placed behind the football goal posts adjacent to the Felinwynt road.
169	Mark Williams MP	Poster showing the surgery dates for November and December	The Clerk has placed a poster in the three noticeboards
170	Cllr Haydn Lewis	A copy of Cllr Lewis' letter to the County Council regarding an alleged complaint of alcohol at the viewpoint.	See item 5a.

## 10. Other Matters:

- (a) **Excessive growth of tree branches at Patch:** As this work has still not been carried out, the Clerk was requested to contact Mr Iestyn Evans (Natural Resources Wales) once again.
- (b) **Panteg, Heol Tywod, Penyparc:** The Clerk was asked to contact the Planning Enforcement Officer of the County Council for information regarding developments at Panteg.
- (c) **Leaves on the roads in the community:** The Clerk was asked to contact the County Council regarding the clearance of the leaves.
- (d) **Bus Shelters at Penyparc:** The Clerk was asked to contact the Mid & West Wales Trunk Road Agent regarding the cleaning of one of the shelters and the replacement of the other which was recently removed. Both are located on the TA487
- (e) **Speed limit on highway TA487 at Penyparc Junior School:** The Clerk was instructed to contact the Welsh

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Government regarding an update of imposing a speed limit at this point of the highway.

**11. Date of next meeting:** 5 December (F)

**Dates of Council Meetings for 2017:**

9 January (YB) 6 February (F) 6 March (YB) 3 April (F) 8 May (YB) 5 June (F) 3 July (YB)  
4 September (F) 2 October (YB) 6 November (F) 4 D (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM =nnual General Meeting